

PRIF WEITHREDWR – PECYN GWYBODAETH

Y sefydliad

Yr hanes a'r swydd

Mae'r Tribiwnlys Prasio wedi bodoli mewn un ffurf nei'i gilydd ers 1948. Mae'n ymdrin ag apeliadau'n gysylltiedig â chasglu trethi lleol, yn bennaf yng nghyswllt prasio cywir eiddo ar gyfer dibenion Ardrethi Annomestig a'r Dreth Gyngor. Mae'n rhoi cyfle i drethdalwyr cyffredin a thalwyr y Dreth Gyngor herio asesiad eu heiddio at ddibenion y trethi lleol hyn mewn lleoliad nad yw'n llys, o flaen panel o aelodau tribiwnlys lleyg. Gall yr achosion amrywio o rai syml a gwylaidd iawn (mwyafrif yr achosion) i rai ffurfiol a dan bwysau lle gall yr apelyddion gael eu cynrychioli gan syrfeiwyr ardrethu proffesiynol neu fargyfreithwyr (nifer fechan o'r rhain mewn blwyddyn).

Corff a noddir gan Lywodraeth Cymru

Mae'r sefydliad yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Golyga hyn ei fod yn gorff annibynnol a gyllidir gan arian cyhoeddus a weinyddir gan Lywodraeth Cymru. Mae gan Dribiwnlys Prasio Cymru gytundeb fframwaith 'hyd braich' gyda Llywodraeth Cymru, sy'n ymdrin yn bennaf â rheoli'r cyllido cyhoeddus a roir i Dribiwnlys Prasio Cymru. Mae Llywodraeth Cymru'n gwneud taliadau cyllido chwarterol ac mae'n darparu gwasanaeth cyflogres i Dribiwnlys Prasio Cymru.

Statws y staff

Nid yw staff Tribiwnlys Prasio Cymru yn weision sifil; maen nhw'n gyflogeion y Tribiwnlys Prasio ei hun. Mae Tribiwnlys Prasio Cymru yn gorff wedi'i gofrestru gyda'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol at ddibenion pensiwn y staff. Nid yw hyn yn golygu bod y staff yn swyddogion llywodraeth leol (eto, maen nhw'n gyflogeion y Tribiwnlys Prasio ei hun). Yn unol â hynny mae Tribiwnlys Prasio Cymru yn pennu amodau a therau ei staff ei hun; er bod y rhain wedi'u seilio ar y "Llyfr Gwyrdd" a ddefnyddir gan wasanaethau llywodraeth leol.

Aelodaeth y Tribiwnlys; timau staff; a gwrandawiaidau

"Tribiwnlys Prasio Cymru ei hun" yw aelodaeth lawn y tribiwnlys (mymryn o dan 75 aelod ar hyn o bryd). Gwirfoddolwyr di-dâl yw'r aelodau, sy'n gwneud cais i fod yn aelodau'r tribiwnlys, ac mae eu cefndiroedd yn amrywiol iawn. Mae rhai yn syrfeiwyr siartredig sy'n deall maes prasio eiddo ac mae rhai yn gyfreithwyr sydd wedi arfer dehongli deddfwriaeth, ond mae llawer heb y cefndir hwn. Mae'r cyfan ohonyn nhw'n cael eu cefnogi gan dîm clerod tribiwnlys Tribiwnlys Prasio Cymru. Mae clerod y tribiwnlys yn arbenigwyr ar atebolrwydd y dreth gyngor ac ardrethi busnes. Mae gan rai gymwysterau gan y Sefydliad Refeniw, Ardrethu a Phrisio (IRRV) ac mae gan rai gymwysterau cyfreithiol; ac mae gan rai y ddau gymhwyster. Tîm clerod y tribiwnlys sy'n cynrychioli mwyafrif staff y Tribiwnlys (9 o'r 15 aelod staff). Mae'r staff sy'n weddill wedi'u rhannu'n dîm cymorth gweinyddol (3 swyddog) a thîm rheoli gweithredol (3 swyddog yn cynnwys y Prif Weithredwr). Mae gan bob un o'r tîm rheoli gweithredol cyfredol brofiad a chymwysterau clerc tribiwnlys; fodd bynnag, anaml iawn maen nhw'n gweithredu fel clerc tribiwnlys – ond maen nhw'n medru gwneud os yw'r amgylchiadau'n galw am hynny.

Ers 2017 penodir aelodau newydd y tribiwnlys am gyfnod o bum mlynedd, a gellir adnewyddu hynny am gyfnod arall o bum mlynedd. Felly 10 mlynedd yw'r cyfnod uchafswm i'r rhai a benodir. Fodd bynnag, penodwyd nifer o'r aelodau cyfredol cyn 2017, dan reolau gwahanol. Mae gan fwyafrif yr

aelodau hyn lawer mwy na 10 mlynedd o brofiad ac maen nhw'n gwasanaethu eu cyfnod olaf yn awr.

Mae'r aelodau mewn panel o dri mewn gwrandawiadau tribiwnlys, gydag un yn meddu ar statws cadeirydd ac yn llywyddu yn y cyfarfod. Penodir cadeiryddion yn fewnol gan banel penodi (edrychwch ar *Y Cyngor Llywodraethu* isod am ragor o wybodaeth am y panel penodi). Nid yw aelodau'r tribiwnlys yn derbyn ffioedd, ond mae eu costau teithio a threuliau eraill yn cael eu had-dalu. Cynhelir gwrandawiadau Tribiwnlys mewn gwahanol leoliadau wedi'u llogi ledled Cymru ac yn swyddfa'r Tribiwnlys ei hun yng Nghasnewydd. Gall swyddfa Casnewydd ymdrin ag achosion lle mae'r unigolion yn dod i'r lleoliad ac achosion y gwrandewir arnyn nhw trwy gyswllt fideo (trwy gyfrwng Zoom yn bennaf, er y gellir defnyddio Microsoft Teams hefyd).

Hyfforddiant

Mae aelodau'n derbyn hyfforddiant mewnol yn rheolaidd (o leiaf unwaith y flwyddyn). Trefnir dau ddiwyddiad hyfforddiant y flwyddyn; pob un wedi'i ddylunio i ymdrin â hanner yr aelodaeth. Cyflwynir yr hyfforddiant gan y tîm clerod tribiwnlys yn bennaf; er y gwneir trefniadau i hyfforddwyr allanol a siaradwyr gwadd gynnal yr hyfforddiant yn achlysurol. Os cyflwynir newidiadau arwyddocaol i ddeddfwriaeth berthnasol, trefnir digwyddiadau ad hoc ychwanegol. Os nad yw aelodau'n bresennol yn yr hyfforddiant gall arwain at eu gwahardd rhag eistedd ar baneli tribiwnlys yn y dyfodol. Rhaid i gadeiryddion fynychu'r hyfforddiant cyffredinol i'r holl aelodau a chynhadledd hyfforddiant flynyddol.

Gwnaeth pandemig COVID darfu ar raglen hyfforddiant y Tribiwnlys yn 2020, gan arwain at ddatblygu fideos hyfforddiant wedi'u teilwra i anghenion yr aelodau ddechrau 2021. Nod y Tribiwnlys yw datblygu llyfrgell ar-lein o'r adnoddau hyfforddiant fideo hyn yn ystod y blynyddoedd nesaf a fydd ar gael i aelodau'r tribiwnlys trwy borth i aelodau ar wefan y Tribiwnlys.

Mae'r hyfforddiant i staff yn cynnwys digwyddiadau a drefnir yn fewnol a chysiau a digwyddiadau allanol. Yn draddodiadol mae'r Tribiwnlys wedi canolbwyntio ar glerod y tribiwnlys yn ennill cymwysterau gan y Sefydliad Refeniw, Adrethu a Phrisio (IRRV). Mae'r Tribiwnlys yn parhau i hyrwyddo a chefnogi ennill y cymwysterau hyn, ond mae wedi ehangu ei ffocws yn ddiweddar i gynnwys ennill diploma yn y gyfraith i raddedigion yn gyntaf. Mae pob un o'r clerod dan hyfforddiant a benodwyd yn fwyaf diweddar (tri ohonynt) wedi dilyn y llwybr hwn.

Mae'r Tribiwnlys hefyd yn cefnogi "diwrnodau cwrdd i ffwrdd" i'r staff, i gryfhau'r ymdeimlad o dîm ar draws y sefydliad cyfan. Penderfynodd y Tribiwnlys gau dwy swyddfa yn Hydref 2020 (Cyffordd Llandudno ac Abertawe) gyda'r gweithwyr yr oedd hyn yn effeithio arnynt yn gweithio gartref yn barhaol. Bellach, gan fod cymysgedd o weithwyr sy'n gweithio yn y swyddfa ac eraill sy'n gweithio gartref yn y sefydliad (hanner a hanner), cred y Tribiwnlys bod y digwyddiadau "cwrdd i ffwrdd" preswyl yn bwysicach fyth nawr i gynnal ysbryd ac ymgysylltiad y staff.

Y Cyngor Llywodraethu

Mae'r aelodaeth lawn yn ethol un o'u plith i fod yn Llywydd a thri Chynrychiolydd Cenedlaethol i fod yn aelodau Cyngor Llywodraethu Tribiwnlys Priso Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn penodi un unigolyn i fod yn aelod o'r cyngor; ac mae'n meddu ar y pŵer i benodi dau arall, os yw'n dymuno. Yn arferol nid yw'r rhai a benodir gan Lywodraeth Cymru yn aelodau'r Tribiwnlys ei hun – er nad oes unrhyw beth i atal hyn.

Mae'r Cyngor Llywodraethu yn gweithredu ar ran yr aelodaeth lawn yn pennu cyfeiriad strategol Tribiwnlys Prasio Cymru. Hefyd, mae'n trefnu cyfarfodydd y panel penodi o dro i dro i benodi aelodau newydd os oes angen, ail-benodi aelodau sy'n bodoli eisoes pan fo angen a phenodi cadeiryddion. Y Cyngor Llywodraethu sy'n pennu nifer yr aelodau a'r cadeiryddion. Mae'r Cyngor Llywodraethu yn monitro perfformiad cyffredinol Tribiwnlys Prasio Cymru. Mae'n ofynnol i'r Prif Weithredwr fynychu pob un o gyfarfodydd y Cyngor. Cynhelir rhaglen o bedwar cyfarfod y flwyddyn. Trefnir cyfarfodydd ychwanegol at ddibenion *ad hoc*.

Swydd y Prif Weithredwr

Y Prif Weithredwr yw'r pennaeth gwasanaeth cyflogedig yn Nhribiwnlys Prasio Cymru. Ef neu hi sy'n gyfrifol am holl faterion gweithredol ac ariannol o ddydd i ddydd Tribiwnlys Prasio Cymru.

Mae'r rôl yn swydd swyddog statudol a grewyd gan reoliad 15 Rheoliadau Tribiwnlys Prasio Cymru 2020 [WSI 2010 Rhif 713 (w.69)]. Mae'r Prif Weithredwr yn Glerc y Tribiwnlys dan y rheoliad hwn hefyd. Mae gan y Clerc nifer o gyfrifoldebau dan amrywiol reoliadau statudol ardrethu annomestig a'r dreth gyngor ynghylch derbyn apelïadau, cyhoeddi hysbysiadau a gwneud a chadw cofnodion. Mae'r gweithgareddau hyn yn cael eu dirprwyo i a'u cyflawni gan staff eraill yn y sefydliad, ond cyfrifoldeb y Prif Weithredwr yw sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni'n briodol a, phan fo newidiadau, bod y newidiadau'n cael eu cyflwyno'n gywir. Yn ymarferol, mae'r Tribiwnlys yn dibynnu'n drwm ar ei system cronfa ddata Technoleg Gwybodaeth i reoli llawer o'r prosesau hyn yn awtomatig. Felly mae angen i'r Prif Weithredwr fod yn llwyr ymwybodol o ofynion y system a sut mae'n gweithredu ac i weithio'n agos â'r Rheolwr Gweithredol sy'n arwain ar gynnal system Technoleg Gwybodaeth Tribiwnlys Prasio Cymru.

Mae'r Prif Weithredwr yn adrodd ar berfformiad Tribiwnlys Prasio Cymru i'r Cyngor Llywodraethu. Mae hyn yn cynnwys prosesau apelïadau a'r perfformiad o ran swyddogaethau rheoleiddiol eraill, fel cydymffurfio â rheolau iechyd a diogelwch, diogelu data, Adnoddau Dynol a safonau'r Gymraeg. Y Prif Weithredwr sydd â'r cyfrifoldeb am sicrhau rheolaeth effeithiol y cyllid, risgiau, safleoedd, cyfleusterau a'r personel (yn cynnwys hyfforddiant). Mae'r Prif Weithredwr yn gweithio'n agos â'r ddau reolwr arall yn y Tîm Gweithredol i gyflawni hyn. Mae'r Prif Weithredwr yn tynnu sylw'r Cyngor Llywodraethu at unrhyw broblemau yn y meysydd hyn, ac yn hyrwyddo datblygu polisiau newydd pan fo angen ac ystyried newidiadau i'r polisiau pan fo angen. Cyfrifoldeb y Prif Weithredwr yw sicrhau llesiant corfforaethol y sefydliad bob amser. Y Prif Weithredwr sy'n drafftio cynlluniau gweithredol Tribiwnlys Prasio Cymru ac yn ysgrifennu adroddiadau blynyddol y Tribiwnlys.

Mae'r Prif Weithredwr yn cynrychioli Tribiwnlys Prasio Cymru mewn cyfarfodydd gyda thîm noddi Tribiwnlys Prasio Cymru yn Llywodraeth Cymru. Yn ddiweddar mae'r Prif Weithredwr ac aelodau eraill y Tîm Rheoli Gweithredol wedi bod yn mynychu'r cyfarfodydd hyn er mwyn cyflwyno gwybodaeth fanwl i Lywodraeth Cymru am waith, cynnydd ac uchelgeisiau'r Tribiwnlys. Mae'r Prif Weithredwr hefyd yn cynrychioli Tribiwnlys Prasio Cymru mewn digwyddiadau a chyfarfodydd a drefnwyd gan gyrff allanol eraill, fel Grŵp Cydgysylltu Cyrff Proffesiynol Asiantaeth y Swyddfa Brasio a Chomisiwn y Gyfraith. Bydd y Prif Weithredwr yn gweithio'n agos â Llywydd y Tribiwnlys ar adegau, yn cynrychioli'r Tribiwnlys o'r persbectif gweinyddol a barnwrol.

Telerau ac Amodau

Graddfa gyflog y Prif Weithredwr yw:

Pwynt Cyflog Tribiwnlys Prasio Cymru	Cyflog blynyddol (£)
51	58,186
52	59,356
53	60,550
54	61,769
55	63,014
56	64,285
57	65,582
58	66,906
59	68,257

Gallai'r pwynt cyflog dechreuol amrywio, yn dibynnu ar brofiad a galluoedd y sawl a benodir. Mae symud i'r cynyddran nesaf yn y pwyntiau cyflog yn digwydd yn flynyddol ar 1 Ebrill bob blwyddyn nes cyrraedd y pwynt uchaf.

Yn ychwanegol at y cyflog, bydd y sawl a benodir yn derbyn lwfans defnyddiwr car blynyddol o £1,239 ac, os yw'n gweithio gartref, lwfans gweithio gartref nad yw'n drethadwy o £24 y mis (£288 y flwyddyn).

Penodir yr ymgeisydd llwyddiannus ar gytundeb penodol dwy flynedd i ddechrau, a fydd yn dechrau gyda chyfnod prawf chwe mis. Gellir adnewyddu'r cytundeb am gyfnod penodol arall ar ddiwedd y ddwy flynedd gyntaf; neu gellid ei wneud yn gytundeb parhaol ar yr adeg hynny. Os nad yw'r ymgeisydd a benodir yn rhugl yn y Gymraeg, bydd yn ofynnol iddo/iddi ddatblygu sgiliau sgwrsio Cymraeg syml cyn diwedd y ddwy flynedd gyntaf.

Mae'r swydd yn un amser llawn (37 awr yr wythnos). Mae'r Tribiwnlys yn gweithredu cynllun gweithio oriau hyblyg.

Bydd y swydd wedi'i lleoli gartref neu yn swyddfa Tribiwnlys Prasio Cymru yng Nghasnewydd, yn dibynnu ar leoliad cartref y sawl a benodir. Disgwylir i unrhyw un a benodir sy'n byw o fewn pellter teithio rhesymol i Gasnewydd fod yn gweithio o'r swyddfa. Os yw'r sawl a benodir yn byw yn Lloegr ar adeg ei benodi, disgwylir iddo/iddi ad-leoli eu prif breswylfa i Gymru cyn pen 12 mis o'r dyddiad dechrau. Telir costau adleoli yn unol â chynllun adleoli Tribiwnlys Prasio Cymru.

Mae'r hawl i wyliau blynyddol yn amrywio o 25 diwrnod i 31 diwrnod o wyliau blynyddol (yn ddibynnol ar unrhyw brofiad blaenorol dan delerau ac amodau "Llyfr Gwyrdd" a hyd y cyfnod gwasanaeth gyda'r Tribiwnlys), *ynghyd â* holl wyliau cyhoeddus/banc y Deyrnas Unedig, *ynghyd â* 4 diwrnod disgresiynol a ddyfernir ac a bennir gan Dribiwnlys Prasio Cymru. Os yw unigolyn yn dechrau gyda hawl i 25 diwrnod byddant yn cael 30 diwrnod ar ôl pum mlynedd o wasanaeth. Byddant yn cael 31 diwrnod ar ôl 10 mlynedd o wasanaeth.

Mae Tribiwnlys Prasio Cymru yn gweithredu cynllun absenoldeb salwch â thâl yn unol â darpariaethau'r "Llyfr Gwyrdd" (*Cytundeb Cenedlaethol ar Gyflog ac Amodau Gwasanaeth* y Cydgyngor Cenedlaethol Gwasanaethau Llywodraeth Leol).

Y cynllun pensiwn yw'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Yn unol â darpariaethau statudol y cynllun bydd y sawl a benodir yn dod yn aelod o'r cynllun yn awtomatig wrth ddechrau ei gyflogaeth. Mae cyfraniadau'r cyflogai i'r gronfa bensiwn yn 8.5% o'u cyflog. Caiff staff ddewis peidio â bod yn rhan o'r cynllun yn union ar ôl eu cofrestru'n awtomatig neu ar ddyddiad diweddarach. Gellir ad-dalu cyfraniadau cyflogai i'r cynllun yn ystod y "cyfnod breinio" (dwy flynedd yn arferol); ar ôl hynny maen nhw'n cael eu cloi yn y gronfa. Gellir cael manylion llawn am hyn ar gais i'r perwyl hynny.

Asesu a chyfweliad

Yn dilyn y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau (6 Ionawr 2023), bydd y Tribiwnlys yn dewis rhestr hir ymgeiswyr, a fydd yn cael eu gwahodd i ddiwrnod agored yn swyddfa Tribiwnlys Prisio Cymru yng Nghasnewydd i gyfarfod aelodau'r Cyngor Llywodraethu, y Tîm Rheoli Gweithredol cyfredol a staff eraill. Gallai'r diwrnod(au) agored gynnwys elfen o brofion asesu. Cynhelir y diwrnod(au) agored ddiwedd Ionawe/dechrau Chwefror trwy gytundeb.

Bydd y broses o lunio rhestr fer yn digwydd yn dilyn y diwrnod(au) agored a bydd yn ofynnol i ymgeiswyr a ddetholir gael gwiriand gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd erbyn diwedd Chwefror. Cynhelir y cyfweliadau ffurfiol yn ystod mis Chwefror; a disgwylir cynnig y swydd i'r ymgeisydd llwyddiannus erbyn diwedd y mis hwnnw. Rhagwelir bydd y dyddiad cychwyn ar gyfer y rôl yma cyn gynted ag y gellir gytuno arno o 1 Ebrill 2023.

Sut i ymgeisio

Defnyddiwch ein ffurflen gais. Peidiwch ag anfon CV.

Gellir cyflwyno cais yn electronig neu ar bapur; a rhaid eu derbyn cyn diwedd 6 Ionawr 2022.

Y cyfeiriad e-bost ar gyfer anfon eich ffurflen gais yn electronig yw:

jobs@valuationtribunal.wales

Y cyfeiriad ar gyfer postio copi caled yw:

Ceisiadau Swydd
Tribiwnlys Prisio Cymru
22 Gold Tops
Casnewydd
NP20 4PG

Peidiwch ag anfon cais electronig a chais ar bapur. Defnyddiwch y naill neu'r llall, NID y ddau.